**CYNGOR SIR FYNWY**
**NEUADD Y SIR, RHADYR, BRYNBUGA, SIR FYNWY NP15 1GA**

**DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013**

HYSBYSIR yn unol ag Adran 41 Deddf Safonau a Threfniadaeth (Ysgolion) Cymru 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 bod Cyngor Sir Fynwy, ar ôl ymgynghori gyda'r personau hynny sydd angen, yn cynnig gweithredu'r canlynol:

1) Adleoli Ysgol Gymraeg y Fenni o'i safle presennol yn Heol Dewi Sant, y Fenni, NP7 6HF i'r safle a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan Ysgol Gynradd Deri View, wedi ei leoli yn Lôn Llwynu, y Fenni, NP7 6AR
2) Cynyddu capasiti Ysgol Gymraeg y Fenni i 420 lle, gyda 60 lle ychwanegol ar gael yn yr uned Meithrin.

Bydd Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu'r newidiadau uchod yn weithredol o 1 Medi 2025.

Cynhaliodd Cyngor Sir Fynwy gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Cyhoeddwyd adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn i'r holl ymgyngoreion statudol ac mae ar gael drwy Trefniadaeth Ysgolion – Sir Fynwy.

Bydd Ysgol Gymraeg y Fenni yn parhau i fod yn ysgol gynradd gymunedol Gymraeg yn gwasanaethu plant rhwng 3-11 oed, a bydd Cyngor Sir Fynwy yn parhau i fod yr awdurdod derbyn. Caiff ceisiadau am leoedd yn yr ysgol newydd eu rheoli a'u penderfynu yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion a gytunwyd gan y Cyngor.

Nifer derbyn disgyblion 4-11 oed yn Ysgol Gymraeg y Fenni fydd 60 gyda chyfanswm capasiti disgyblion o 420 lle ar gyfer yr ystod oedran hwn.

Bydd Ysgol Gymraeg y Fenni yn cynnig darpariaeth feithrin i gael ei chynnal gan Gyngor Sir Fynwy fydd yn darparu 60 o leoedd rhan-amser/30 cyfwerth ag amser llawn.

Bwriad y Cyngor yw y caiff cludiant ei ddarparu yn rhad ac am ddim ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gymraeg y Fenni, yn unol â pholisi'r Cyngor bryd hynny. Y polisi cyfredol yw fod disgyblion yn gymwys am gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol os ydynt yn ateb y meini prawf canlynol:

a) Eu bod yn mynychu eu hysgol Gymraeg agosaf neu ddalgylch a

b) Eu bod yn byw fwy na un filltir a hanner o'r ysgol ar gyfer cynradd neu

c) Eu bod yn byw fwy na dwy filltir o'r ysgol ar gyfer uwchradd.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig, sef erbyn **19 Gorffennaf 2025,** gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion a amlinellir o fewn yr hysbysiad hwn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at yr Uned Fynediad ar gyfer Ysgolion a Myfyrwyr, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA neu drwy e-bost i strategicreview@monmouthshire.gov.uk

Llofnod: Dyddiad: ***20 Mehefin 2024***

Paul Matthews
Prif Weithredwr
Dros Gyngor Sir Fynwy

monmouthshire
sir fynwy

# NODYN ESBONIADOL

***(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn ffurfio rhan o'r hysbysiad ond caiff ei gynnig fel esboniad)***

Bydd Ysgol Gymraeg y Fenni yn adleoli o'i safle cyfredol i'r safle a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan Ysgol Gynradd Deri View. Cyfeiriad yr ysgol newydd fydd Ysgol Gymraeg y Fenni, Lôn Llwynu, y Fenni, NP7 6AR.

Fel canlyniad i'r adleoli hwn, bydd capasiti Ysgol Gymraeg y Fenni yn cynyddu i ddarparu 60 lle ym mhob grŵp blwyddyn, gyda chyfanswm o 420 lle ar gyfer plant 4-11 oed. Nid yw'r amcanestyniadau cyfredol yn rhagweld y caiff y nifer hwn ei gyrraedd yn y tymor byr.

Bydd Ysgol Gymraeg y Fenni yn parhau i fod â meithrinfa a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yn cynnig 60 lle addysg gynnar ran-amser ar gyfer plant 3 a 4 oed. Cynigir hefyd i adleoli'r Cylch Meithrin Cymraeg nas cynhelir i'r safle newydd i ddarparu gofal plant cofleidiol ar gyfer plant 3 a 4 oed.